

**Cyfeirnod:** IR760

**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Rhagfyr 2020

## Contractau cyfarpar diogelu personol

Diolch am eich e-bost isod. Deallaf fod ymateb wedi'i ddarparu i chi gan \_\_\_\_\_ o'n tîm cyfathrebu ar 30 Tachwedd.

Rwyf wedi ystyried eich cais, sydd wedi'i atgynhyrchu yma er hwylustod, "pe gallech ddarparu unrhyw fanylion penodol megis pa gontractau sy'n cael eu hystyried, byddai hynny'n ddefnyddiol iawn" yn unol â'r gweithdrefnau a nodir ar wefan Archwilio Cymru yn: <https://www.audit.wales/cy/sefydliad-agored-thryloyw/polisi-gwybodaeth>, ac wedi canfod nad oes gennym wybodaeth wedi'i chofnodi gyda manylion penodol pellach yn ymwneud â pha gontractau sy'n cael eu hystyried. Y rheswm am hyn yw nad yw cwmpas yr adolygiad wedi'i gwblhau eto, ac nid yw'r lefel hon o fanylder gennym ar hyn o bryd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir

Swyddog Gwybodaeth